Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /This document is available in English

Creigiau a Sain Ffagan: Heol Pant-y-Gored Gwelliannau Priffyrdd

Adroddiad Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 4 Ionawr 2019 a 25 Hydref 2019. Cafwyd 40 ymateb. Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi'u crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad
O ystyried yr adroddiad isod, cynigir bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion er mwyn bodloni amodau'r Cytundeb A106.

Mater 1 - Cyfyngiad Cyflymder 20mya

Gofynnodd nifer o ymatebwyr am gael cyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya yn Heol Pant-y-Gored.

Ymateb

Mae'r cyngor yn cytuno â'r egwyddor y byddai cyfyngiad cyflymder 20mya yn briodol ar gyfer Heol Pant-y-Gored, mae hyn yn cydymffurfio â'n dull strategol o newid cyfyngiadau cyflymder ar hyn o bryd. Mae'r cynigion ar gyfer y cyfyngiad cyflymder hwn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ac rydym yn rhagdybio y byddant yn weithredol erbyn y flwyddyn ariannol nesaf (yn dibynnu ar gyllid). Bydd y newid yn y cyfyngiad cyflymder yn gofyn am brosesu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig cyn gallu ei weithredu ar y safle, a bydd proses ymgynghori ar wahân ar gyfer hyn. Cynigir y bydd y cyfyngiad cyflymder 20mya newydd yn cynnwys Heol Pant-y-Gored a strydoedd preswyl pentref Creigiau.

Mater 2 - Pryderon diogelwch cerddwyr

Cododd nifer o ymatebwr bryderon ynghylch diogelwch, yn benodol mewn perthynas â'r posibilrwydd y gallai cerbydau fynd ar y droedffordd yn Heol Pant-y-Gored. Cafwyd ceisiadau penodol am folardiau, rheiliau neu gwrbyn dyrchafedig ar hyd yr ochr.

Ymateb

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, nid yw'r Cyngor yn defnyddio barau ar hyd troedffyrdd. Mae'n rhaid gosod celfi stryd, megis rheiliau amddiffyn a bolardiau o fewn lleiafswm pellter clirio o 300mm i 450mm o ymyl y cwrbyn ac mae hyn yn culhau'r droedffordd. Gall rheiliau diogelu hefyd fod yn berygl i ddefnyddwyr ffordd sy'n agored i niwed ar y briffordd, yn arbennig beicwyr. Mae risg y gallai beicwyr gael eu dal yn erbyn y rheiliau ac mae hyn wedi achosi marwolaethau mewn rhannau eraill o'r wlad ac rydym yn tynnu barau cerddwyr pan fo'n bosibl megis pan fyddwn yn ailddylunio cyffyrdd -

Bydd y mannau pasio yn rhoi ardaloedd diogel i gerbydau trymion a mawr basio ei gilydd heb fynd ar y droedffordd ac mae gofod priodol rhyngddyn nhw ac maent i'w gweld yn glir o un i'r llall.

Mater 3 - Safle a maint y cilfachau pasio

Holodd nifer o ymatebwyr ynghylch lleoliad y pedair cilfach basio ac a ddylid rhoi rhai ychwanegol ar y ffordd sy'n arwain at Robin Hill.

Ymateb

Yn y cilfachau pasio, bydd y ffordd yn 6.3m o led ac mae'r cilfachau yn 20m o hyd, sy'n ddigon llydan i ddau gerbyd mawr (yn cynnwys bysus) basio ei gilydd. Bydd y mannau pasio hefyd yn culhau yn y ddau ben er mwyn hwyluso symud i mewn ac allan ohonyn nhw. Ni fwriedir bod nifer o gerbydau mawr yn defnyddio'r cilfachau pasio ar yr un pryd; bwriedir bod un cerbyd mawr yn mynd yno i basio un arall lle mae'r ffordd yn lletach. Mae mannau pasio yn aml yn barhaol ar ffyrdd gwledig er mwyn i gerbydau basio ei gilydd.

Mae lleoliadau'r cilfachau parcio wedi eu dewis er mwyn gallu gweld ymlaen rhyngddynt, yn arbennig wrth ymyl troad. Bydd hyn yn sicrhau bod gyrwyr sy'n nesáu yn cael cyfle i aros wrth fan pasio pan welant fod cerbyd yn dynesu.

Mae rhan y ffordd o fferm Pant y Gored at y gyffordd â Ffordd Caerdydd yn lletach (yn rhannol) na'r darn lle bydd cilfachau pasio ac felly bydd eisoes yn ddigon llydan i ddau gerbyd mawr basio ei gilydd, heb fod angen rhoi llefydd pasio ychwanegol.

Mater 4 - Mynedfa'r chwarel

Cafwyd ymholiadau gan nifer o breswylwyr ynghylch mynedfa'r chwarel a pherthynas mynedfa'r chwarel â mynedfa'r cae hamdden.

Ymateb

Mae'r cais cynllunio'n gofyn am wneud newidiadau i fynedfa'r chwarel. Bydd rhaid cyflwyno manylion y cynllun i'r Cyngor ei gymeradwyo. Bydd y cynllun yn cynnwys adeiladu ynys draffig yn y fynedfa i'r safle er mwyn rhwystro/atal cerbydau rhag troi i'r dde allan o'r safle a throi i'r chwith i'r safle. Mae'n rhaid i'r cynllun sicrhau nad fydd defnyddio'r datblygiad arfaethedig yn amharu ar ddiogelwch a llif rhydd y traffig sy'n gyrru heibio i'r safle.

Bydd y cynllun yn mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i'r mynediad i'r Cae Hamdden ac yn hwyluso symudiad diogel cerddwyr, gan wahanu traffig y chwarel oddi wrth y traffig a'r cerddwyr sy'n defnyddio'r cae hamdden. Yn ogystal, gellir gosod unrhyw gyfyngiadau parcio angenrheidiol yn y fynedfa i atal parcio yn y fynedfa yn syth os ceir bod hyn yn peri problemau.

Mater 5 - Lefelau sŵn a llygredd aer

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon yn gysylltiedig â cherbydau trymion yn aros yn y cilfachau pasio a'r sŵn ac allyrron peipen ôl oherwydd y traffig cerbydau trymion mawr.

Ymateb

Dan y gymeradwyaeth cynllunio, mae Rheoli Llygredd y Cyngor (Sŵn ac Aer) wedi gofyn am gyfraniad ariannol i ariannu monitro aer parhaus tra bo'r chwarel yn gweithredu.

Caiff y cilfachau pasio arwyddion 'mannau pasio' ac ni fwriedir eu defnyddio i aros na pharcio am gyfnodau hir gan gerbydau. Os gwelir cerbydau yn parcio yn y mannau pasio hyn, a fydd yn arwain at wneud y mannau parcio yn anaddas i gerbydau trymion, mae'n bosibl y bydd angen cyflwyno cyfyngiadau parcio. Caiff hyn ei fonitro ar ôl i'r gwaith ailgychwyn yn y chwarel a chaiff cyfyngiad parcio ei weithredu os penderfynir bod angen hyn.

Mater 6 - Arolwg Cloddiau

Mae nifer o breswylwyr wedi mynegi pryderon ynghylch y clawdd y bydd yn rhaid ei dynnu er mwyn adeiladu'r cilfachau pasio a cholli cynefin.

Ymateb

Mae Adroddiad Asesiad Effaith Ecolegol wedi ei wneud mewn ymgynghoriad ag ecolegydd y Cyngor ac mae hwn yn cynnwys asesiad o werth y gwrychoedd. Trafodwyd gofynion y Rheoliadau Gwrychoedd â Swyddog Cadw Coed y Cyngor.

Mae'r ecolegydd wedi argymell ein bod yn clirio llystyfiant ar gyfer adeiladu'r mannau pasio mewn dau gam dan friff arolygol. Byddwn yn gwneud cam cyntaf clirio'r llystyfiant yn fuan yn y flwyddyn newydd, caiff y deunydd uwchlaw'r ddaear ei glirio â llaw er mwyn tarfu cyn lleied â phosib ar y pathewod. Caiff gweddill y llystyfiant ei dynnu ym mis Mai.

Caiff y gwrychoedd eu hailblannu gyda rhywogaethau coed a phlanhigion addas a nodir gan ecolegydd y Cyngor ac i gydymffurfio ag unrhyw amodau a allai godi mewn perthynas â'r Rheoliadau Gwrychoedd.

Mater 7 - Effaith traffig trwy bentref Creigiau

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon y bydd defnyddwyr y ffordd yn osgoi defnyddio Heol Pant-y-Gored ac y bydd hynny'n cynyddu'r traffig ym mhentref Creigiau fel y ffordd arall.

Ymateb

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn datblygu cynigion ar gyfer cyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya ym mhentref Creigiau, a bydd hyn hefyd yn cynnwys croesfannau newydd i gerddwyr. Bydd y cyflymder is a'r croesfannau gwell i gerddwyr yn helpu i greu amgylchedd priffordd mwy diogel, yn benodol i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed.

Mater 8 - Cerbydau yn ciwio cyn amser agor y chwarel

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon y gallai lorïau'r chwarel gychwyn ciwio ar Heol Pant-y-Gored yn aros iddi agor.

Ymateb

Aethpwyd i'r afael â'r pryder hwn yn Adroddiad y Pwyllgor Cynllunio, paragraff 8.34.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryder hwn, cynigir amod ynghylch rheoli'r safle, a fydd yn gallu trafod/lleihau unrhyw faterion sy'n berthnasol i gerbydau sy'n gysylltiedig â'r chwarel yn parcio yn y mannau pasio ac yn ciwio ar y briffordd fabwysiedig. Caiff hyn ei drafod â Tarmac ac mae'n fater gweithredol i'r chwarel.

Mater 9 - Pryderon cyffredinol ynghylch ailagor y chwarel.

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch materion sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, megis:

- *Ceisiadau i atal y datblygiad rhag mynd rhagddo a pheidio ag ailagor y chwarel.*
- *Awgrymiadau am ffyrdd eraill ar gyfer y cerbydau trymion.*
- *Pryderon ynghylch nifer uchel y cerbydau trymion a fydd yn defnyddio'r chwarel.*
- *Oriau gweithredu'r chwarel*
- *Sŵn a llwch o'r chwarel*
- *Pryderon ecolegol ynghylch gweithrediadau'r chwarel.*
- *Pryderon cynnal y briffordd yn codi o gynnydd yn y traffig cerbydau trymion.*

Ymateb

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud yn unig ag adeiladu'r cilfachau pasio.Mae'n ofynnol bod y cynllun yn bodloni cytundeb Adran 106 sy'n gysylltiedig ag estyn Chwarel Creigiau y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer ar 21 Rhagfyr 2018. Nid oed modd i ni ateb pwyntiau penodol sy'n berthnasol i weithrediad y chwarel yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae gwybodaeth ynghylch y pwyntiau uchod ar gael yn Adroddiad y Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn: 15/01953/MJR, sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Yn dilyn ymgynghoriadau di'weddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.
Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW





Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.
Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please email TransportProjects@cardiff.gov.uk or write to Transport Projects, Room 301, County Hall, Cardiff, CF10 4UW